Cofnodion Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 27 Hydref 2018 yn y Pales

2018.39.Addoli agoriadol a chroeso
Yn ystod ein haddoli agoriadol mae rhan o'r cyflwyniad i Bennod 24 o *Quaker Faith & Practice* wedi'i darllen yn y Saesneg ac mae paragraff 26.64 wedi'i ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2018.40 Yn clercio heddiw
Peter Hussey fydd yn gweithredu fel y cyd-glerc heddiw.

2018.41 Yn bresennol:
Rydym yn croesawu 42 o Gyfeillion yma heddiw fel a gofnodwyd ar y rhestr bresenoldeb.
Cynrychiolwyr y Cyfarfodydd Ardal heddiw yw:
CADC: Julia Lim
CAGD: Bridget Cherry
CACC: John Senior
CAGC: Frank Brown a Mike Clark

Ein henaduriaid ar gyfer heddiw yw: Jeff Beatty a John Senior.
Ein cyfieithydd heddiw yw Steffan Wiliam

2018.42. Calon a *The Friend*
Bydd Michael Clark yn ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn i *Calon* a bydd Julia Lim yn ysgrifennu i *The Friend.*

2018.43. Cofnodion ynglŷn â phenderfyniadau rhwng cyfarfodydd

a) Rydym wedi derbyn y cofnod canlynol gan CADC:
Cofnod 18.60 CADC: Cyngor Mwslimiaid Cymru
Fe'n hysbyswyd am y cais gan Laura Jones o Gyngor Mwslimiaid Cymru am gynrychiolydd o'r Crynwyr i fynychu'r cinio rhyng-ffydd blynyddol a gynhelir yng Nghaerdydd 25.09.18. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i gynnwys Crynwyr yn eu rhwydwaith rhyng-ffydd.
Mae Anne Hosking yn fodlon cynrychioli'r Crynwyr yn y cinio ac yn barhaus ochr yn ochr â'i rôl gyda Cytûn Dinas Caerdydd a'r Bae.

Rydym yn falch o dderbyn cynnig Anne.
Gofynnwn i'n Clercod roi gwybod i Glercod CADC a Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru am yr uchod fel y gellir nodi'r cysylltiad hwn â Chyngor Mwslimiaid Cymru ac efallai adeiladu arno mewn ardaloedd eraill.
Wedi'i lofnodi ar ôl y Cyfarfod.

Leela Attfield – y Clerc y tro hwn

b) Bu ein Cyfeilles Jane Harries yn mynychu cyfarfod *Embrace the Middle East* ar ein rhan.

2018.44. Rhyddhau, enwebiadau a phenodiadau

a) Rhyddhau:
i) Mae Ann Boot wedi gofyn am gael ei rhyddhau o'r Pwyllgor Enwebiadau; rydym yn derbyn ei dymuniad i gael ei rhyddhau gan ddiolch iddi am ei gwasanaeth ac yn penodi Christine Trevett a Jane Harries fel grŵp chwilio i gael hyd i rywun i gymryd ei lle o blith CADC, gyda'r penodiad i gael ei wneud gan y broses rhwng cyfarfodydd.

ii) Mae David Utting yn gofyn am gael ei ryddhau o'i swydd fel ymddiriedolwr o 1 Tachwedd 2018; cytunwn i'w ryddhau gan ddiolch iddo am ei wasanaeth.

b) Enwebiadau:
i) Mae ein grŵp chwilio, a benodwyd gan gofnod 2018.38, yn dwyn gerbron enw Shazia Jamshed o CAGC i'w phenodi i'n grŵp enwebiadau. Gan fod yr enw hwn yn dderbyniol, drwy hyn fe'i penodir. Mae'r grŵp chwilio'n dwyn enw arall gerbron sef Ruth Moore Williams o CAGC i'w phenodi i grŵp enwebiadau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Gan fod yr enw hwn yn dderbyniol, drwy hyn fe'i penodir.

ii) Enwebiadau a ddygir gerbron gan y grŵp enwebiadau:

a) y grŵp ffocws:

Peter Hussey GD 01.01.19 hyd at 31.12.21
Alun Williams CC 01.01.19 hyd at 31.12.21
David Harries DC 01.01.19 hyd at 31.12.20

b) ymddiriedolwyr:

Gordon Blackburn DC 01.01.19 hyd at 31.12.21
Huw Meredith Owen GC 01.01.19 hyd at 31.12.21

c) clerc i'r ymddiriedolwyr:

Deborah Rowlands DC 01.01.19 hyd at 31.12.21

d) y grŵp laser:

David Harries DC 01.01.19 hyd at 31.12.21

e) trysorydd:

Martin Hughes GC 01.01.19 hyd at 31.12.21

Gan fod yr enwau hyn yn dderbyniol, drwy hyn fe'u penodir.

c) Cofnod o'r Grŵp Ffocws a'r Ymddiriedolwyr:

Mae cyfarfod ar y cyd rhwng ein Hymddiriedolwyr a Grŵp Ffocws Cymru wedi anfon y Cofnod canlynol:

Enwebiadau:

Rydym wedi adnabod anawsterau yn y ffordd y mae ein Grŵp Enwebiadau wedi gweithio. Roedden ni wedi mynegi'r gobaith y byddai pob aelod o Grŵp Enwebiadau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn datblygu cysylltiadau agos â Phwyllgor Enwebiadau ei Gyfarfod Ardal ond nid yw hyn wedi digwydd eto. Bellach rydym yn gofyn i Bwyllgor Enwebiadau pob Cyfarfod Ardal, ac eithrio o bosib Gyfarfod Ardal Gororau'r De nad yw'n cynnal ond 3 chyfarfod sy'n gyfan gwbl Gymreig, ddwyn gerbron enw o'r Pwyllgor i fod yn berson cyswllt â Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

Diolchwn i'r grŵp am eu gwaith gan anfon y cofnod hwn i'r pedwar Cyfarfod Ardal i'w ystyried ganddynt.

d) Enwebiadau y chwilir amdanynt:

Clerc cynorthwyol yn syth a hyd at 31.12.2020

Un aelod o'r grŵp adnoddau o 01.01.19 hyd at 31.12.21

Dirprwy drysorydd o 01.01.19 hyd at 31.12.21

Un Ymddiriedolwr i wasanaethu'n syth hyd at 31.12.20

e) Cytunwn y dylai ceisiadau am ddefnyddio'r gyllideb hyfforddi ar gyfer rolau o fewn Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gael eu penderfynu gan glercod y Cyfarfod, mewn ymgynghoriad â chlerc yr Ymddiriedolwyr, clerc y Grŵp Ffocws a'r trysorydd.

2018.45. Cyfarfod y Grŵp Ffocws a'r Ymddiriedolwyr: cyfeiriad a llywodraethu Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn y dyfodol

Mae'r Holiadur yn gofyn am farn Cyfeillion ar gyfeiriad a llywodraethu Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn y dyfodol wedi derbyn rhyw 20 o ymatebwyr, sef tua 1% o'r Cyfeillion yng Nghymru. Roedd ymatebwyr yn gadarnhaol at ei gilydd gan dderbyn bod y

Cyfarfod yn parhau, gyda'r newidiadau a awgrymir yn gysylltiedig â threfniadaeth a chyfathrebu.

Mae syniadau diddorol wedi'u cynnig, gan gynnwys defnyddio grwpiau bach sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth y gellid ymddiried darnau gwaith gorchwyl a gorffen iddynt.

Mae yna gryn bryder am gydbwysedd busnes ac ysbrydolrwydd, ond gwerthfawrogiad o'r gwelliannau sydd wedi digwydd mewn cyfarfodydd diweddar.

Mae cynigion wedi'u hawgrymu ar gyfer ein gwefan a ffyrdd eraill o ddefnyddio TG ynghyd â datblygu rhaglen gyffrous o siaradwyr, gweithdai a digwyddiadau.

Mae Deborah Rowlands wedi cynnig cynnull grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried cyfeiriad Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru o ran dewis pynciau, canolfannau a phatrwm cyfarfodydd yn y dyfodol. Drwy hyn, penodir Rhian Parry, Christine Trevett a Gethin Evans i'r grŵp hwn.

2018.46. Grŵp y Pales

Fe'n croesewir yma heddiw i'r Pales gan aelodau o Grŵp Datblygu'r Pales. Maent wedi trefnu arddangosfa sy'n dangos cyfeiriad eu cynlluniau ac rydym wedi clywed rhywbeth am eu cynnydd. Mae gan yr adeilad hanes o fod yn ganolfan i wasanaethu'r gymuned leol; nid yw hyn yn briodol bellach, felly chwilir am ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaeth i gymuned ehangach o lawer. Mae rhaglen fywiog o sgyrsiau a digwyddiadau ar waith a bydd datblygiad arfaethedig y safle'n hwyluso mwy o ddefnydd. Adnodd yw'r adeilad hanesyddol hwn, y Tŷ Cwrdd hynaf yng Nghymru sydd wedi'i ddefnyddio'n barhaus, nid ar gyfer CAGD yn unig ond ar gyfer Cymru gyfan a Chyfarfod Blynyddol Prydain.

Mae Grŵp Rheoli'r Pales yn mynd i lansio cynllun 'Cyfeillion y Pales' yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd unigolion yn gallu dod yn Gyfeillion am £40 y flwyddyn a thrwy hynny gefnogi parhad yr adnodd gwerthfawr hwn.

2018.47. Gethin Evans:

Mae Gethin Evans wedi siarad â ni heddiw am 'Ein gwrol ryfelwyr': Crynwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae wedi rhoi i ni olwg newydd ar sefyllfa'r Crynwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymunodd llawer o Grynwyr â'r lluoedd arfog; bu farw llawer. Mae'r datganiad gan y Cyfarfod Dioddefiadau 7 Awst 2014 yn dangos bod agwedd Dioddefiadau at y rhyfel o leiaf yn

amwys. Teimlai'r Crynwyr hynny a ymunodd â'r lluoedd arfog fod y Goleuni Mewnol wedi'u harwain i ymuno, yn yr un modd ag y teimlai'r gwrthwynebwyr cydwybodol eu bod hwythau hefyd wedi'u harwain. Y ddealltwriaeth hon o'r ymdeimlad ag arweiniad a gadwodd y Cyfarfod Blynyddol rhag hollti. Roedd undod yn ymwneud â rhyddid y gydwybod.

Ar ôl y rhyfel, roedd angen i gyfarfodydd dynnu'r syniadau croes yma at ei gilydd drwy ddeall yr angen am gariad, addfwynder a thynerwch.
Yn ein cofnodion cyhoeddus dylai fod cydnabyddiaeth o'r Crynwyr hynny a wasanaethodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd o fewn y sefydliad milwrol. Arweiniodd gwaith rhai ohonynt at ddatblygiadau ym maes meddygaeth.

Diolchwn i Gethin Evans am ei waith wrth ein helpu i ddeall ein hanes yn well fel Crynwyr.

Cytunwn i anfon y cofnod hwn at y Cyfarfod Dioddefiadau.

2018.48. Cyllid ar gyfer cyfieithu'r prosiect 'Wythnos Heddwch i Ysgolion'
Rydym yn cefnogi cyfieithu'r pecyn 'Wythnos Heddwch' i ysgolion gan ein bod yn deall yn llwyr yr angen am hyn yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg: mae llawer o ysgolion yng Nghymru'n addysgu naill ai yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac felly mae'n waith caled iawn i athrawon os mai yn y Saesneg yn unig y mae'r deunyddiau. Wedi'i gyfieithu a'i roi ar y wefan i athrawon, 'Hwb', byddai ar gael i bawb ei lawrlwytho am ddim. Bydd angen cyllid i gyfieithu a theiposod y pecyn.
Rydym yn anfon y cofnod hwn at y Clerc Cofnodi a'r pedwar Cyfarfod Ardal yng Nghymru.

2018.49. Adroddiadau
Rydym wedi derbyn yr adroddiadau canlynol drwy'r grŵp e-byst ac ar bapur yn y cyfarfod hwn:
Darlith yr Eisteddfod Genedlaethol 2018;
Eisteddfod Genedlaethol 2018;
Sioe Frenhinol Cymru 2018;
Plant a Phobl Ifainc;
Cyngor Cynrychioladol *Quaker Life*;
Meddyliau am Wahaniaethau Diwylliannol.

Diolchwn i bawb sydd wedi gweithio ar y materion hyn, naill ai fel gwirfoddolwyr mewn digwyddiadau neu fel awduron yr adroddiadau hyn. Ein gobaith yw y bydd y ddarlith o'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chyfieithu fel y bydd ar gael yn ehangach. Rydym yn

cymeradwyo'r papur ar Amrywiaeth Ddiwylliannol i'n Cyrddau Lleol fel adnodd sy'n rhoi cipolwg i ni ar rai o'r materion llosg a geir yng Nghymru heddiw.

2018.50.Dyddiadau a chanolfannau ar gyfer cyfarfodydd yn 2019:

23 Chwefror 2019: Tŷ Cwrdd Aberystwyth: bydd Christine Trevett yn ein harwain ar beth rydym ni yng Nghymru am ei gynnig i'r argraffiad newydd o *Qf&p*

22 Mehefin 2019: Tŷ Cwrdd Aberdaugleddau: Aled Eurig

26 Hydref 2019: Eglwys Fethodistaidd y Drenewydd.
(Jane Harries ar waith heddwch yng Nghymru)

Llofnodwyd

Catherine James
Clerc ar yr adeg hon

Peter Hussey
Cyd-glerc ar yr adeg hon.